

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Garth Road a Ffordd y Parc,
Llanfair-ym-Muallt, Powys)
(Gwahardd Aros) 202-

The A483 Trunk Road (Garth Road
and Park Road, Builth Wells,
Powys) (Prohibition of Waiting)
Order 202-

Gwnaed ** **** 202-

Made ** **** 202-

Yn dod i rym ** **** 202-

Coming into force ** **** 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 a pharagraffau 2 a 5 o Atodlen 10 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) and 124(1)(d) of, paragraph 27 of Schedule 9 to, and paragraphs 2 and 5 of Schedule 10 to the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 and regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Garth Road a Ffordd y Parc, Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Aros) 202- a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ** **** 202-.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Garth Road and Park Road, Builth Wells, Powys) (Prohibition of Waiting) Order 202- and this Order comes into force on ** **** 202-.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Interpretation

2. In this Order—

- (1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656.

- (1) 1984 c. 27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1990/1656.

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person’s badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(1);

mae i “disg parcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(2);

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

mae i “y safle perthnasol” (“*the relevant position*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

Gwahardd aros

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4 o’r Gorchymyn hwn, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau’r darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau

4.—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau’r darnau o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 o’r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi —

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio’n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn, sef:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r darn hwnnw o’r gefnffordd; neu

“disabled person’s badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in regulation 2(1) of The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(1);

“parking disc” (“*disg parcio*”) has the meaning given in regulation 8(5) of The Local Authorities’ Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(2);

“the relevant position” (“*y safle perthnasol*”) has the meaning given by regulation 4 of The Local Authorities’ Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road.

Prohibition of waiting

3. Except as provided in article 4 of this Order, no person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order at any time.

Exemptions

4.—(1) A person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in article 3 of this Order for so long as may be necessary to enable —

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from a vehicle;

(c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other length of road, to be used in connection with any of the following operations:

- (i) building, industrial or demolition operations;
- (ii) the removal of any obstruction to traffic;
- (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said length of the trunk road; or

(1) O.S. 2000/1786 (Cy.123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2000/1785 (Cy.122).

(1) S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I. 2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.

(2) S.I. 2000/1785 (W.122).

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(1);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu;

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd.

Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Aros) 1979(2) wedi ei ddirymu.

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(1);

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the length of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it:

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;

(iii) is prevented from proceeding; or

(iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) A person may cause or permit a vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the sides of the lengths of the trunk road.

Revocation

5. The Trunk Road (Builth Wells, Powys) (Prohibition of Waiting) Order 1979(2) is revoked.

(1) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).
(2) O.S.1979/988.

(1) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).
(2) S.I.1979/988.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

** ***** 202-

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

** ***** 202-

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd aros

1. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Garth Road sy'n ymestyn o bwynt 84.5 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at yr orsaf dân hyd at bwynt 109.7 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.
2. Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Garth Road sy'n ymestyn o linell cwrw orllewinol ei chyffordd â Hospital Road hyd at bwynt 58.2 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.
3. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd y Parc sy'n ymestyn o linell cwrw orllewinol ei chyffordd â'r ffordd a elwir hefyd yn Ffordd y Parc hyd at bwynt 24.1 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.
4. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd y Parc sy'n ymestyn o linell cwrw ddwyreiniol ei chyffordd â'r ffordd a elwir hefyd yn Ffordd y Parc hyd at bwynt 25.4 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.
5. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd y Parc sy'n ymestyn o bwynt 21 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â ffordd fynediad yr U0852 hyd at bwynt 71 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.
6. Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Ffordd y Parc sy'n ymestyn o linell cwrw orllewinol ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at Ysgol Calon Cymru hyd at bwynt 22.5 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

SCHEDULE

Prohibition of waiting

1. The length of the northern side of the trunk road known as Garth Road that extends from a point 84.5 metres west of its junction with the access road leading to the fire station to a point 109.7 metres west of that said junction.
2. The length of the southern side of the trunk road known as Garth Road that extends from the western kerbline of its junction with Hospital Road to a point 58.2 metres north west of that said junction.
3. The length of the northern side of the trunk road known as Park Road that extends from the western kerbline of its junction with the road also known as Park Road to a point 24.1 metres west of that said junction.
4. The length of the northern side of the trunk road known as Park Road that extends from the eastern kerbline of its junction to the road also known as Park Road to a point 25.4 metres east of that said junction.
5. The length of the northern side of the trunk road known as Park Road that extends from a point 21 metres west of its junction with the U0852 access road to a point 71 metres west of that said junction.
6. The length of the northern side of the trunk road known as Park Road that extends from the western kerbline of its junction with the access road leading to Ysgol Calon Cymru to a point 22.5 metres west of that said junction.